Polisi Cwynion, Canmoliaeth a Sylwadau

Os oes gennych rywbeth i'w ddweud - rydym am glywed gennych.

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn gwella ei wasanaethau yn barhaus ac mae eich adborth yn bwysig i ni. Os oes gennych syniad, canmoliaeth neu gŵyn, hoffem petaech yn dweud wrthym. Bydd hyn yn ein helpu i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig.
Mae croeso i chi rannu eich sylwadau hefyd drwy lenwi'r ffurflen ar-lein [ar y tudalen Adborth]. Os yw'n well gennych, gallech anfon e-bost atom i neu ysgrifennu atom (gweler 'Cysylltwch â Ni' am y cyfeiriad).

Caiff eich sylwadau eu pasio ymlaen i'r Cyfarwyddwr a'u cydnabod, a rhoddir gwybod i'r staff perthnasol.

Cwynion
Nod Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yw rhoi gwasanaeth o safon dda i bawb ar bob adeg, ond rydym yn derbyn na fyddwn yn ei chael hi'n iawn bob tro. Pan aiff pethau o chwith, rydym am wybod. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle teimlwch eich y dylech wneud cwyn, ac rydym yn eiddgar i wrando ar eich safbwyntiau. Drwy wneud hyn gallwn ddysgu o unrhyw gamgymeriadau, eu cywiro, arbed camgymeriadau tebyg rhag digwydd yn y dyfodol a dod i wybod sut i wella ein gwasanaeth lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
Os nad ydych yn fodlon ar safon y gwasanaeth a roddir, y gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, yna dylech gyflwyno cwyn ysgrifenedig a'i hanfon at:

Y Prif Swyddog Gweithredol
PREIFAT A CHYFRINACHOL
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf
Llanisien
Caerdydd
CF14 5UW

Ebost: info@clybiauplantcymru.org

Gofynnir i chi sicrhau eich bod yn cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad, copïau o unrhyw ohebiaeth, enwau'r bobl berthnasol, a manylion a dyddiadau'r gŵyn ei hun.
Byddwch yn derbyn ymateb cychwynnol ynghyd â chopi o'n gweithdrefn gwynion, a fydd yn amlinellu sut yr ymdrinnir â'r gŵyn.